**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

5 Rhagfyr 2016

Annwyl Dai

Yn ein cyfarfod ar 23 Tachwedd, clywodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau (y Pwyllgor) dystiolaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) mewn perthynas â'i adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16.

Yn ystod y sesiwn, codwyd nifer o faterion ynghylch cyrff y GIG a darparu gwasanaethau iechyd. O gofio bod y materion hyn yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw atynt. Yr wyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar yr un trywydd.

## Cynnydd mewn cwynion iechyd

Yn dilyn gohebiaeth gan Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, sy'n mynegi pryder am y cynnydd mewn cwynion yn erbyn cyrff y GIG a'r baich dilynol ar y GIG wrth ymdrin â chwynion, holodd y Pwyllgor yr Ombwdsmon ar y mater hwn. Adroddodd yr Ombwdsmon y bu cynnydd nodedig yn nifer y cwynion yn erbyn dau fwrdd iechyd, sef Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd ef o'r farn y gallai hyn egluro'r cynnydd cyffredinol mewn cwynion yn erbyn cyrff y GIG. Dywedodd hefyd fod nifer y cwynion yn erbyn cyrff y GIG mewn rhannau eraill o Gymru yn gostwng.

Awgrymodd yr Ombwdsmon fod cwynion proffil uchel diweddar yn erbyn y byrddau iechyd prifysgol hyn yn golygu fod unigolion yn fwy parod i gwyno nag fel arall. Dywedodd wrthym fod swyddog gwella wedi cael ei neilltuo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ogystal â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i wella'r broses o ymdrin â chwynion ac i helpu i sicrhau bod gwelliannau yn digwydd yn y meysydd hynny o ddarparu gwasanaethau lle nodwyd diffygion. Dywedodd wrthym hefyd fod swyddog gwella wedi cael ei neilltuo i bump allan o'r saith bwrdd iechyd.

### Llywodraethu ac atebolrwydd

Un thema allweddol a gododd o dystiolaeth yr Ombwdsmon oedd yr angen i sicrhau arweinyddiaeth a llywodraethu da ar draws y byrddau iechyd ac i ddatblygu diwylliant lle caiff cwynion eu hystyried yn gyfle i sicrhau gwelliant parhaus mewn gwasanaethau. Yn gysylltiedig â hyn, tynnodd yr Ombwdsmon sylw at bwysigrwydd craffu'n effeithiol ar y byrddau iechyd ac awgrymodd fod angen eglurder pellach ar drefniadau craffu.

### Gofal y tu allan i oriau

Dywedodd yr Ombwdsmon wrthym ei fod wedi cyhoeddi ei adroddiad thematig cyntaf yn ystod y flwyddyn adrodd, *Y Tu Allan i Oriau: Amser i Ofalu?*, a dynnodd sylw at nifer o achosion a ymchwiliwyd iddynt oedd yn dangos bod safon y gofal a roddir i gleifion mewn ysbytai y tu allan i oriau gwaith arferol yn annigonol. Dywedodd wrthym hefyd ei fod yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad ac y byddai'n cwrdd â'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol cyn bo hir i drafod camau gweithredu posibl sy'n deillio ohono.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried trafod y materion uchod gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar adeg briodol.

Cofion cynnes

John Griffiths AC
Cadeirydd